# 29. Cymraeg 2050

## Cefndir

### 1.Cymraeg 2050

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg, Cymraeg 2050:Miliwn o Siaradwyr, yn cyflwyno gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Mae gan y system addysg statudol rôl hanfodol i'w chwarae er mwyn cynyddu nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg. Mae'n hollbwysig cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion sy'n cael y cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn yr ysgol, a'r cyfle i'w defnyddio'n helaeth yn eu bywydau bob dydd, i gyflawni'r nodau hyn.

Mae Llywodraeth Cymru am gynyddu cyfran y grwpiau blwyddyn mewn ysgolion sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg, yn ogystal â chynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Llywodraeth Cymru hefyd eisiau trawsnewid sut mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu i bob dysgwr er mwyn sicrhau bod o leiaf 70% o'r dysgwyr sy'n gadael yr ysgol yn 2050 yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg; a chynyddu nifer yr athrawon cynradd ac uwchradd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Gymraeg fel iaith.

Dyma'r strategaeth gyffredinol sy'n gyrru pob datblygiad cyfrwng Cymraeg o fewn y system addysg ac o fewn ysgolion unigol. Mae gan lywodraethwyr rôl hanfodol i'w chwarae, felly, i helpu i gyflawni'r weledigaeth hon.

### 2. Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, ac mae'n nodi bod yn rhaid i Gynllun gynnwys cynigion yr awdurdod lleol i wella'r broses o gynllunio addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac addysgu'r Gymraeg yn ei ardal, ynghyd â safonau'r ddarpariaeth. Mae Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a'r canllawiau ategol yn darparu'r manylion a'r cyd-destun i gefnogi awdurdodau lleol wrth gynllunio. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru bellach yn gweithredu cynllun 10 mlynedd.

Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn ganolog i dwf addysg Gymraeg. Mae'r Cynlluniau Strategol yn cael eu gyrru gan dargedau uchelgeisiol 10 mlynedd sy'n cyd-fynd â cherrig milltir addysg Strategaeth Cymraeg 2050. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru am weld canran y dysgwyr blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn bennaf yn cynyddu o 24% i 30% erbyn 2031, ac yn achos dysgwyr mewn ysgolion lle mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu fel pwnc yn unig, fod 70% yn dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol.

Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod pob awdurdod lleol yn wahanol, o ran canran y dysgwyr sy'n cael eu haddysgu drwy'r Gymraeg yn yr ardal; y modelau addysg Gymraeg a fabwysiadwyd gan yr awdurdod lleol; a natur ieithyddol yr ardal. Adlewyrchir hyn yn y targedau. Gellir cael rhagor o wybodaeth yn y canllawiau ar Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Er bod Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael eu datblygu a'u gweithredu o dan ofyniad statudol lle mae'n rhaid i'r awdurdod gymryd arweiniad strategol, mae gan lywodraethwyr ysgolion rôl allweddol i'w chwarae yn eu hysgolion unigol drwy gefnogi datblygiadau cyfrwng Cymraeg yr ysgol a thrwy weithio mewn partneriaeth agos â'r awdurdod lleol i'w helpu i gyflawni targedau eu Cynllun.

Er mwyn ymateb i'w dyletswyddau statudol fel rhan o'r Cynllun Strategol, mae angen i awdurdodau lleol wybod pa ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg sydd ar gael ym mhob ysgol yn eu hardal. Gall hyn gynnwys yr amser a dreulir yn dysgu Cymraeg fel pwnc yn ogystal â phynciau eraill a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg. Gall hefyd gynnwys cyfranogiad ysgolion yng nghynlluniau Cymraeg Campus neu'r Siarter Iaith (i ddatblygu defnydd anffurfiol dysgwyr o'r Gymraeg) yn ogystal â'r math o weithgareddau dysgu proffesiynol Cymraeg a ddilynir gan staff addysgu a staff cymorth er mwyn galluogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru.

Disgwylir i awdurdodau lleol adrodd ar y cynnydd yn lefel yr addysg cyfrwng Cymraeg a ddarperir yn eu hysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae disgwyl iddynt hefyd adrodd ar sut maent yn gwella sgiliau Cymraeg dysgwyr sy'n cael addysg Gymraeg mewn unrhyw ysgol y maent yn ei chynnal er mwyn gwella safonau addysg cyfrwng Cymraeg.

Mae hyn oll i'w wneud ochr yn ochr â'r ffocws cynyddol yn y Cwricwlwm i Gymru ar ddatblygu'r Gymraeg ar gyfer pob dysgwr. Mae darparu'r wybodaeth a amlinellir uchod yn hanfodol er mwyn i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer twf eu darpariaeth Gymraeg gyffredinol, yn ogystal ag adlewyrchu'n gywir y cynnydd a wnaed.

Disgwylir i awdurdodau lleol hefyd adrodd yn eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg sut maent yn cefnogi'r cynnydd yn nifer a chanran y dysgwyr ym mlwyddyn 10 a throsodd yn eu hysgolion uwchradd a gynhelir sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ac yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd angen i ysgolion ddarparu data sy'n manylu ar yr arlwy a gynigir yn y pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â nifer y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae rôl corff llywodraethu yn hanfodol er mwyn cefnogi ac annog arweinwyr ysgolion nid yn unig i gymryd camau i gynyddu a gwella'r ddarpariaeth Gymraeg yn eu hysgolion, ond hefyd i sicrhau bod eu hysgol yn darparu gwybodaeth gywir ac amserol. Yn benodol, mae ffurflenni Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Ysgolion a'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn bwysig er mwyn dangos y cynnydd a wnaed o ran camau gweithredu eu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg bob blwyddyn. Bydd hyn yn helpu awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i asesu a chynllunio'r cymorth sydd ei angen mewn ysgolion yn well.

## 3. Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg

Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau newydd ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er mai awdurdodau lleol, drwy eu dyletswyddau statudol o dan y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol am weithredu'r polisi categoreiddio, bydd angen gweithio'n

agos gyda chyrff llywodraethu i'w roi ar waith yn llwyddiannus, i sicrhau eu cefnogaeth i ddatblygiadau cyfrwng Cymraeg.

Mae deddfwriaeth benodol sy'n pennu dyletswyddau a gofynion i ysgolion ac awdurdodau lleol roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am y cyfrwng iaith a ddefnyddir i gyflwyno'r cwricwlwm. Mae Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011 yn nodi'r wybodaeth y dylai ysgolion ac awdurdodau lleol ei chyhoeddi ym mhrosbectysau ysgolion unigol a phrosbectws cyfansawdd yr awdurdod cyfan. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am gategori iaith yr ysgol at ddibenion CYBLD. Mae Atodlen 2 i'r rheoliadau yn nodi'r wybodaeth gyffredinol i'w chyhoeddi gan awdurdodau lleol yn eu prosbectws ysgolion, gan gynnwys y categori iaith a ddefnyddiwyd gan gorff llywodraethu'r ysgol yn y datganiad CYBLD diweddaraf sy'n disgrifio'r ysgol orau.

Dylai'r prosbectws ysgolion ar gyfer rhieni a darpar rieni gynnwys gwybodaeth am y trefniadau ar gyfer categoreiddio ysgolion yn ôl lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol a'r canlyniadau ieithyddol ar gyfer disgyblion. Dylai gwybodaeth a threfniadau derbyn yr awdurdod lleol hefyd gynnwys gwybodaeth am gategoreiddio ysgolion yn ôl lefel y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a'r canlyniadau ieithyddol ar gyfer disgyblion.

Mae'r categorïau ysgolion a ddisgrifir yn y CYBLD fel a ganlyn:

| Categori | Disgrifiad |
|---|---|
| C1 | Ysgol/darpariaeth cyfrwng Saesneg |
| T2 | Ysgol/darpariaeth cyfrwng Saesneg neu'r rheiny â chyfran uchel o ddarpariaeth Gymraeg sy'n trosi i fod yn ysgol/darpariaeth dwy iaith (Cymraeg a Saesneg) dros amser |
| C2 | Ysgol/darpariaeth dwy iaith (Cymraeg a Saesneg) |
| T3 | Ysgol/darpariaeth dwy iaith (Cymraeg a Saesneg) sy'n trosi i fod yn ysgol/darpariaeth cyfrwng Cymraeg dros amser |
| C3 | Ysgol/darpariaeth cyfrwng Cymraeg |
| CP | Ysgol/darpariaeth uwchradd benodedig cyfrwng Cymraeg |

Bydd rhai ysgolion yn dymuno newid eu categori iaith. Bydd rhai awdurdodau lleol, fel rhan o ymrwymiadau eu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, hefyd yn annog ysgolion sydd â'r capasiti i newid eu categori iaith i wneud hynny. Mae nifer o ffactorau y mae angen eu hystyried er mwyn i ysgolion ymgymryd â'r broses hon yn llwyddiannus, a bydd arweinyddiaeth ac ymrwymiad yn allweddol. Mae angen i'r arweinyddiaeth hon ddod oddi wrth gorff llywodraethu'r ysgol, y pennaeth a'r tîm uwch-reolwyr, a rhaid i'r awdurdod lleol gefnogi'r arweinyddiaeth hon drwy gydol taith yr ysgol.

## 4. Y Gymraeg yn y Cwricwlwm i Gymru

Mae'r Gymraeg a'r Saesneg ill dwy yn elfennau gorfodol yn y Cwricwlwm i Gymru, ac mae rhagor o fanylion ym Mhennod 11 o'r canllaw hwn. I grynhoi, mae'r Gymraeg yn

orfodol o 3 i 16 oed ym mhob ysgol a lleoliad, a Saesneg yn orfodol o 7 i 16 oed. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i gwricwlwm sydd wedi'i gynllunio a'i fabwysiadu gan ysgol neu leoliad gynnwys darpariaeth ar gyfer addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg i'r grwpiau oedran hynny. Mater i ddisgresiwn pob ysgol a lleoliad yw addysgu Saesneg cyn saith oed.

Dylai ysgol neu leoliad gynllunio a mabwysiadu cwricwlwm sy'n cynnwys y ddwy iaith, gan ddefnyddio canllawiau statudol fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, yn enwedig y canllawiau ar gyfer Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu. Rhaid cynllunio'r cwricwlwm hwn hefyd mewn ffordd sy'n sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu. Mae canllawiau ychwanegol ar gyfer cynnwys sgil drawsgwricwlaidd orfodol llythrennedd mewn cwricwlwm ar gael, ac mae cymorth pellach i ysgolion cyfrwng Saesneg sy'n addysgu'r Gymraeg ar Hwb.

## 5. Bil Addysg y Gymraeg

Mae Rhaglen Waith Cymraeg 2050 (2021 i 2026) a'r Cytundeb Cydweithio â Phlaid Cymru yn ymrwymo Llywodraeth Cymru i gyflwyno Bil Addysg y Gymraeg yn ystod tymor y chweched Senedd.

Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi holl ddisgyblion Cymru i dyfu'n siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol.

Mae'r prif gynigion yn cynnwys:

- Adlewyrchu'r targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg yn y gyfraith.
- Creu un continwwm sgiliau Cymraeg i ddisgrifio lefelau sgiliau fel bod dysgwyr, athrawon, rhieni a chyflogwyr yn dod i ddealltwriaeth gyffredin o'r daith tuag at ddysgu Cymraeg.
- Sefydlu system statudol o gategoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith.
- Dros amser, cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir nad ydynt eisoes yn ysgolion cyfrwng Cymraeg penodedig.
- Gofyniad i Weinidogion Cymru greu Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg, a'i adolygu bob tymor Seneddol.
- Diwygio sut mae awdurdodau lleol yn cynllunio darpariaeth Gymraeg mewn ysgolion er mwyn cyrraedd targedau a osodir gan Weinidogion Cymru.
- Gofynion ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg yn rhagweithiol, gan gynnwys darpariaeth trochi hwyr; a
- Rhoi cymorth arbenigol i ysgolion o ran dysgu Cymraeg.

Bydd gan gyrff llywodraethu rôl bwysig i'w chwarae i gefnogi arweinwyr ysgolion i flaenoriaethu'r gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf.

### Y gyfraith

Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019

Rheoliadau Gwybodaeth Ysgolion (Cymru) 2011